

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo Gynadledda drwy Zoom Sarah Beasley
Dyddiad: Dydd Iau, 7 Mai 2020 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00 0300 200 6565
Seneddlechyd@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00–09.30)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.30)
- 2 COVID–19: Sesiwn dystiolaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru**
(09.30–10.30) (Tudalennau 1 – 40)
Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr – Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Quentin Sandifer, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd
Cyhoeddus a Chyfarwyddwr Meddygol – Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Giri Shankar, Arweinydd Proffesiynol ar Ddiogelu Iechyd a Chyfarwyddwr
Digwyddiadau o ran yr ymateb i COVID –19 – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Briff ymchwil
Papur 1: Iechyd Cyhoeddus Cymru
- 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4**
(10.30)

Egwyl (10.30–10.40)
- 4 COVID–19: Trafod y dystiolaeth**
(10.40–11.00)



- 5 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Fforwm Gofal Cymru**
(11.00-12.00) (Tudalennau 41 – 42)
Mary Wimbury, Prif Weithredwr – Fforwm Gofal Cymru
Mario Kreft, Cadeirydd – Fforwm Gofal Cymru
- Papur 2: Fforwm Gofal Cymru
- 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**
(12.00)
- 7 COVID-19: Trafod y dystiolaeth**
(12.00-12.20)
- 8 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ynghylch effaith COVID-19 ar faterion chwaraeon**
(12.20-12.30) (Tudalennau 43 – 44)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG IECHYD CYHOEDDUS CYMRU AR COVID-19

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd,
Gofal Cymdeithasol a
Chwaraeon

MAI 6, 2020

Sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru Dydd Iau 7 Mai 2020

1 Cyflwyniad

Cyflwynir y dystiolaeth ysgrifenedig hon i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon cyn sesiwn dystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru a gynhelir ddydd Iau 7 Mai 2020.

Mae'r papur yn ymdrin yn bennaf â'r camau a gymerwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod y cam *oedi* (o 12 Mawrth 2020 ymlaen) ac yn disgrifio'r gweithgareddau allweddol, yr hyn a ddysgwyd o wledydd eraill a'r effeithiau ehangach ar iechyd y boblogaeth o ganlyniad i COVID-19.

2 Yr Epidemioleg Gyfredol

Niferoedd byd-eang: Mae'r pandemig wedi datblygu'n sylweddol ers dechrau mis Mawrth, gyda dros 190 o wledydd bellach yn adrodd bod ganddynt achosion o'r clefyd. Ar 5 Mai 2020, roedd 3,575,545 o achosion a gadarnhawyd a 243,401 o farwolaethau ledled y byd¹.

Niferoedd yn y DU: Mae pob un o bedair gwlad y DU wedi gweld cynnydd cyflym yn nifer yr achosion a'r marwolaethau yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill. Ar 5 Mai 2020, roedd 194,990 o achosion o blith cyfanswm o 1,015,138 o bobl a brofwyd. Nifer y bobl a fu farw yn y DU yw 29,427².

Y niferoedd yng Nghymru: Mae datblygiad y pandemig yng Nghymru wedi dilyn y duedd yn Lloegr yn glos ac mae pob un o'r saith Bwrdd Iechyd a'r 22 o ardaloedd Awdurdodau Lleol wedi cofnodi achosion a marwolaethau a gadarnhawyd. Ar 5 Mai 2020, roedd 10,669 o achosion a gadarnhawyd a 1023 o farwolaethau. Profwyd cyfanswm o 36,389 o unigolion yng Nghymru a chynhaliwyd 42,346 o brofion³.

Epidemioleg yng Nghymru: Y prif grŵp oedran yr effeithir arno yw'r ystod oedran 50-59 oed ac yna'r ystod oedran 40-49 oed. Yn seiliedig ar fonitro ystod o ddata dros y pythefnos diwethaf, mae'n ymddangos bod y brig cyntaf wedi mynd heibio yng Nghymru. Dangosir mwy o fanylion yn

¹ https://www.who.int/docs/default-source/coronaviruse/situation-reports/20200505covid-19-sitrep-106.pdf?sfvrsn=47090f63_2

² <https://www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-information-for-the-public>

³ <https://public.tableau.com/profile/le/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

Atodiad 1. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi dangosfwrdd cadw golwg rhyngweithiol y gellir ei weld [yma](#).

3 Gwybodaeth newydd am epidemioleg a throsglwyddiad COVID-19

Bellach, mae tystiolaeth glir iawn y gall unigolion cael canlyniad prawf positif ar gyfer yr haint heb gael unrhyw symptomau a gwelir pobl gyda symptomau annodweddiadol o'r haint.

Bellach cydnabyddir bod y cyfnod heintus yn sgil gollwng y feirws hyd at 2 ddiwrnod cyn i'r symptomau ddechrau dod i'r amlwg, sy'n golygu bod trosglwyddiad cyn-symptomatig o'r haint.

Cydnabyddir bod hyd y cyfnod heintus hefyd yn ymestyn y tu hwnt i 7 diwrnod, sy'n golygu bod goblygiadau o ran y cyfnod ynysu yn enwedig i unigolion sy'n agored i niwed (e.e. preswylwyr cartrefi gofal, y rhai ag imiwnedd gwan) ac mewn lleoliadau risg uchel.

4 Dysgu o brofiad rhyngwladol

Fel aelod o Gymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI), cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru weminar ddechrau mis Mawrth, a fynychwyd gan 11 o sefydliadau iechyd cyhoeddus cenedlaethol Ewropeaidd gan gynnwys yr Almaen, yr Eidal a Ffrainc, yn canolbwyntio ar gyfathrebu â'r cyhoedd. Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn gweminarau gyda Chanolfannau Rheoli ac Atal Clefydau De Korea a Tsieina. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cael trafodaeth ddwyochrog gyda Sefydliad Robert Koch ym Merlin, Canolfan Genedlaethol Diogelu Iechyd yr Almaen. Pwrpas y rhain yw dysgu gan wledydd eraill sut maen nhw wedi ymdrin â'r pandemig.

Mae ein Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd, gan gynnwys Swyddfa Fenis a'r Rhwydwaith Rhanbarthau Iechyd. Rydym wedi cael mynediad uniongyrchol i'r canllawiau, y dystiolaeth a'r gwersi diweddaraf o bob cwr o'r byd ac o Ewrop, sy'n gysylltiedig ag effeithiau ehangach COVID-19 ar iechyd a llesiant pobl, tegwch, gwytnwch cymunedol a gwytnwch systemau, cymdeithas a'r economi.

Mae ein Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (IHCC) wedi bod yn helpu i ledaenu a defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn rhyngwladol a phrofiad ystod o rwydweithiau a sefydliadau Ewropeaidd a byd-eang, ac mewn cydweithrediad â'r pum gwlad (gan gynnwys Iwerddon). Mae e-fwletin wythnosol gyda'r wybodaeth a'r adnoddau diweddaraf yn cael ei gylchredeg i'n rhwydweithiau yng Nghymru.

Yn fwy diweddar, mewn ymateb i'r mesurau sy'n esblygu mewn perthynas â COVID-19, a llywio cynlluniau ymateb ac adfer iechyd cyhoeddus yng Nghymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi canolbwyntio ar ddatblygu ffrwd waith *Sganiao'r Gorwel Rhyngwladol* (fel y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru). Mae hyn yn canolbwyntio ar yr ymateb rhyngwladol i COVID-19, dulliau i liniaru effaith ehangach, pontio a dulliau adfer.

5 Meysydd y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi canolbwyntio arnynt yn ystod y cam oedi

Drwy gydol y cam oedi mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi parhau i ymgysylltu â gwledydd eraill y DU. Mae hyn yn cynnwys telegynhadledd ddyddiol rhwng y pedair gwlad dan arweiniad Public Health England.

Yn y cam *oedi*, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ehangu'r capasiti i gynnal profion yng Nghymru - er gwaethaf yr heriau'n ymwneud â chadwyni cyflenwi byd-eang cystadleuol. Yn ogystal, rydym wedi bod yn gwerthuso nifer o brofion gwrthgyrff masnachol (seroleg/llif ochrol) a'r gobaith yw y bydd modd eu cyflwyno yn ystod yr wythnosau nesaf. Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn adran 6 isod.

Cymru oedd un o'r gwledydd cyntaf yn y DU i gynnig profion i Weithwyr Gofal Iechyd (cychwynnwyd hynny ar 18 Mawrth 2020). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru yn ystod y broses o lunio polisïau ar brofi gweithwyr allweddol.

Gan weithio gyda Grŵp Cyngori Technegol Llywodraeth Cymru, a chysylltu â gwledydd eraill y DU, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn rhan o'r gwaith modelu i gynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer Cymru yn seiliedig ar fodelau'r DU. Mae hyn wedi helpu byrddau iechyd i gynllunio capasiti, yn arbennig capasiti gofal critigol ac ehangu capasiti gofal cleifion mewnol i ysbytai maes.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu dangosfwrdd cadw golwg rhyngweithiol, sydd ar gael ar y dudalen we gyhoeddus (y mae modd ei gweld ar gyfrifiadur ac ar ffôn clyfar). Mae hwn yn cael ei ddiweddarau'n ddyddiol ac yn darparu gwybodaeth i ystod o randdeiliaid gan gynnwys y cyhoedd ac yn caniatáu i ddata gael ei lawrlwytho'n hawdd hefyd (gweler [yma](#)).

6 Samplu a Phrofi

Samplu yw'r broses o gymryd sampl o'r corff a fydd wedyn yn cael ei brofi. Ar hyn o bryd, cymerir samplau (swabiau) o gefn y gwddf i ganfod antigenau ac a **oes** COVID-19 ar rywun. Byddwn hefyd yn cymryd samplau

gwaed gan bobl i wirio am wrthgyrff (profion seroleg) sy'n dangos a oes rhywun **wedi cael** COVID-19.

Ymhlith y dulliau profi mewn labordy sydd ar gael i ganfod y feirws mae profion PCR (adwaith cadwynol polymerasau) i ganfod RNA (asid riboniwcleig) feirysol mewn sampl. Mae'r ymateb imiwn i'r feirws yn cynnwys cynhyrchu gwrthgyrff ac mae sawl dull ar gael i ganfod gwrthgorff i'r feirws. Fodd bynnag, nid yw'n hysbys a yw'r profion sydd ar gael ar hyn o bryd yn canfod imiwnedd, ynteu dim ond haint blaenorol, ac felly ni ellir eu defnyddio i ganfod imiwnedd.

Yn y cam *oedi*, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys yr Hwb Gwyddorau Bywyd a Llywodraeth Cymru, i ehangu'r capasiti i gynnal profion am antigenau yng Nghymru. Gan ddechrau o gapasiti sylfaenol o 350 o brofion antigenau (PCR) y dydd rydym bellach wedi cynyddu hynny i 2350 y dydd. Bydd y capasiti profi yn parhau i gynyddu dros yr wythnosau nesaf. Yn ogystal, rydym wedi bod yn gwerthuso nifer o brofion gwrthgyrff masnachol (seroleg/llif ochrol) a'r gobaith yw y bydd modd cyflwyno'r rhain yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni symud i'r cam Adfer.

Mae'n bwysig nodi, gan ein bod mewn pandemig, bod holl wledydd y byd yn ceisio sicrhau capasiti profi ar gyfer eu gwlad eu hunain. Mae hyn felly'n golygu bod cael gafael ar gyfarpar ac adweithyddion cemegol ar gyfer profion yn rhan o gadwyn gyflenwi fyd-eang hynod gystadleuol ac yn arwain at oedi a newidiadau i archebion a'r nwyddau sy'n cyrraedd Cymru.

Mewn perthynas â 'chanolfannau samplu' h.y. lle y cymerir swabiau, ar hyn o bryd mae 20 o unedau profi ar gyfer coronafeirws sy'n cael eu rheoli gan fyrddau iechyd ledled Cymru sy'n cefnogi'r gwaith o samplu gweithwyr allweddol yn y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ogystal, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mae nifer o ganolfannau samplu'r boblogaeth (safleoedd profi torfol) wedi'u datblygu. Y safleoedd a agorwyd yn ddiweddar yw:

1. Stadiwm Dinas Caerdydd
2. Maes Sioe Caerfyrddin
3. Llandudno
4. Abercynon (wrthi'n cael ei datblygu)

Yn ogystal, datblygwyd safleoedd yn Rodney Parade, Casnewydd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Stadiwm Liberty gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Ac eithrio Stadiwm Dinas Caerdydd, rheolir pob safle gan y byrddau iechyd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r fyddin i gefnogi'r gwaith o ddatblygu unedau profi symudol. Mae wyth uned ar gael

ar gyfer Cymru, gyda phob bwrdd iechyd yn cael un uned yr un. Bydd Powys yn cael dwy uned. Bydd yr unedau'n gweithredu o'r canolfannau samplu'r boblogaeth.

Mae porth gwe i alluogi pobl i archebu profion ar-lein yn cael ei ddatblygu. Mae hyn bellach yn fyw i rai grwpiau o weithwyr allweddol sy'n gallu archebu profion yn stadiwm Dinas Caerdydd. Mae gwaith ar y gweill i gyflwyno hyn yn gyflym i'r holl weithwyr allweddol ac yna ei ehangu i'r holl ganolfannau samplu'r boblogaeth ledled Cymru o fewn yr wythnos nesaf. Hefyd, mae gwaith ar y gweill i ymchwilio i opsiynau ar gyfer dosbarthu pecynnau prawf i gartrefi pobl. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar symud ymlaen gyda'r datblygiadau hyn.

Mae amcangyfrif y galw am brofion yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau megis amcangyfrifon o nifer yr achosion ar sail data modelu (ar gyfer senarios wedi'u lliniaru a heb eu lliniaru), cyfraddau cefndir arferol haint ar y llwybr anadlol uchaf ymysg y boblogaeth, cyfran y gweithwyr rheng flaen sy'n dod i gysylltiad â'r feirws sydd wedyn yn dod yn symptomatig a chydymffurfiaeth â'r mesurau lliniaru.

Wrth i ni symud i'r cam adfer, bydd yn bwysig cydbwysu dosraniad y capasiti profi ar unrhyw adeg benodol er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau profi.

7 Lleoliadau caeedig a chartrefi gofal

Sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru *gell lleoliad caeedig* o 23 Mawrth 2020 er mwyn mabwysiadu dull atal / ymyrraeth o ymdrin â chartrefi gofal a phreswyl a charchardai. Mae tîm ymroddedig, sy'n gweithio gyda phartneriaid, wedi bod yn cyflwyno pecyn o ymyriadau gan gynnwys cymorth i reoli achosion a chlystyrau, cyngor ar atal a rheoli'r haint, a defnyddio offer amddiffynnol personol (PPE).

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i flaenoriaethu cartrefi gofal. Mae gweithgaredd yn y ganolfan alwadau wedi cynyddu ac rydym wedi cynyddu nifer y bobl sy'n gweithio yn y ganolfan. Mae hyn yn rhannol oherwydd y nifer cynyddol o alwadau o gartrefi gofal lle ceir achosion newydd a hefyd o ganlyniad i bolisi newydd Llywodraeth Cymru i brofi pob achos symptomatig ymysg preswylwyr.

Gan weithio mewn partneriaeth â Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd awdurdodau lleol, mae'r Swyddogion hyn bellach yn cysylltu'n rhagweithiol â chartrefi gofal lle nad oes achosion a gadarnhawyd, fel cam ataliol. Byddant hefyd yn mynd ar drywydd cartrefi lle ceir achosion newydd, er mwyn cynnig cymorth ychwanegol a monitro nifer yr achosion a nifer y

marwolaethau. Mae tîm arbenigol diogelu iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ddarparu cymorth ar draws pob lleoliad.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer cartrefi gofal ac i ddarparu cyngor ar rolau a chyfrifoldebau i bob sefydliad. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar 3 Mai 2020, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n gyflym gyda Llywodraeth Cymru ac arweinwyr byrddau iechyd i sicrhau eglurder a'u galluogi i weithredu'r canllawiau.

8 Gwasanaethau iechyd cyhoeddus (Sgrinio, Imiwneiddio a Gwasanaethau Nad Ydynt yn Ymwneud â'r Coronafeirws)

Gwasanaethau sgrinio: Yn dilyn y cyhoeddiad am reolau cadw pellter cymdeithasol, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru asesiad risg ar allu a diogelwch darparu rhaglenni sgrinio. Penderfynwyd atal pob gwahoddiad a chanslo clinigau sgrinio o 18 Mawrth 2020 ymlaen ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru, Bron Brawf Cymru, Sgrinio Coluddion Cymru a Sgrinio Serfigol Cymru. Fodd bynnag, o ran y bobl hynny a oedd eisoes wedi cael eu sgrinio, byddai'r llwybr yn cael ei gwblhau. Penderfynwyd hefyd parhau â rhaglenni Sgrinio Cyn Geni Cymru, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig a Sgrinio Clyw Babanod, o gofio bod gan bob un ohonynt gyfnodau ymyrraeth byr. Symudodd rhai o staff y gwasanaethau sgrinio'r fron a sgrinio serfigol i gefnogi'r gwasanaeth symptomatig, gan gyfrannu at glinigau symptomatig asesu'r fron a cholposgopi brys. Bu'n rhaid i fyrddau iechyd atal gwasanaethau sgrinio a cholonosgopi clinigol ac mae hyn wedi golygu bod yn rhaid datblygu dull gwahanol i ymateb i symptomau sy'n awgrymu achos o ganser y coluddyn, a gyflwynwyd ddiwedd mis Ebrill i gefnogi cleifion a'r GIG.

Imiwneiddio: Gan gydnabod y bydd COVID-19 yn arwain at gwmp yn y nifer sy'n cael yr holl frechlynnau oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol, cau ysgolion, gwarchod grwpiau risg uchel ac amharodrwydd i gael imiwneiddiadau arferol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi adolygu'r rhaglen imiwneiddio yng Nghymru. Gan ystyried papur yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol 'S7A Programme Assessment in light of Covid-19' (17 Mawrth 2020), a chanllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 17 Mawrth 2020, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi argymhell dull imiwneiddio yn seiliedig ar flaenoriaethu ar ôl nodi bod rhai rhaglenni brechu yn rhaglenni blaenoriaeth *uchel iawn* ac *uchel*. Argymhellodd Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd i Lywodraeth Cymru fod paratoi ar gyfer rhaglen y ffliw 2020-21 yn waith strategol bwysig ac y dylid disgwyl cynnydd yn y galw am frechiadau rhag y ffliw.

Gweithgareddau diogelu iechyd nad ydynt yn gysylltiedig â'r

Coronafeirws: Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ymateb i faterion diogelu iechyd arferol nad ydynt yn ymwneud â Covid-19 gan gynnwys ymateb i achosion, clystyrau a brigiad o heintiau hysbysadwy. Yn nodedig, mae'r ymateb parhaus i achosion o TB, clwstwr o glefyd y llengfilwyr, cynnydd mewn hysbysiadau am glwy'r pennau a heintiau gastroberfeddol wedi parhau.

Wrth i ni symud i'r cam adfer, bydd yn bwysig cydbwysu dosraniad y capasiti profi ar unrhyw adeg benodol er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau profi.

9 Gwybodaeth ar gyfer adferiad

Mae cydnabyddiaeth gynyddol y bydd y cyfyngiadau yn sgil Covid-19, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â gweithio, addysg, hamdden, diwylliant a theithio, yn cael effeithiau negyddol uniongyrchol ac anuniongyrchol sylweddol ar iechyd a llesiant, ynghyd â rhai effeithiau cadarnhaol posibl.

Ymysg yr effeithiau uniongyrchol ar Iechyd, Llesiant ac elfennau Cymdeithasol mae materion megis colli gofal iechyd a chymorth nad yw'n gysylltiedig â Covid-19 (gan gynnwys mewn meysydd allweddol megis clefyd cardiofasgwlaidd, canser, iechyd a llesiant meddyliol); effeithiau ar y nifer sy'n manteisio ar imiwneiddio a brechu a; risg uwch o lefelau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, cam-drin plant a cham-drin pobl hŷn (gall pob un o'r rhain gael effeithiau hirdymor).

Mae effeithiau tymor hwy yn cynnwys materion megis colli incwm a chynnydd mewn dyledion, gydag effaith gysylltiedig ar ddiogelwch bwyd, ansawdd bywyd, y gallu i brynu hanfodion ac iechyd meddwl.

Mae'n bosibl i lawer o'r uchod gael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc, cymunedau a grwpiau difreintiedig, ac o bosibl cynyddu ymhellach y bylchau o ran anghydraddoldebau iechyd. Er mwyn helpu i lywio opsiynau polisi i sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng mesurau rheoli'r feirws a chanlyniadau negyddol posibl, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cymorth mewn pedwar prif faes.

1. Aseidiadau Effaith ar Iechyd Covid-19
2. Arolwg Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar lesiant ac ymddygiad
3. Sganio'r Gorwel Rhyngwladol
4. Dangosfwrdd o ddangosyddion iechyd ehangach.

Gwnaed cynnydd ym mhob un o'r meysydd hyn.

1. **Aseidiadau Effaith ar Iechyd Covid-19.** Rydym yn datblygu cyfres o aseidiadau effaith ar iechyd cyflym, a fydd yn creu darlun o ystod o

effeithiau (cadarnhaol a negyddol) Covid-19 a'r ymatebion polisi o ran iechyd a llesiant yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy.

2. Mae'r **Arolwg Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar lesiant ac ymddygiad** bellach yn casglu data am y bedwaredd wythnos. Ymhlith y canfyddiadau diweddar mae:

- a. *Cytundeb cryf bod y GIG yn ymateb yn dda (mae 96% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf)*
- b. *Pobl yn cydnabod bod pobl yn eu cymunedau a fydd yn eu cefnogi drwy'r pandemig (mae 81% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf)*
- c. *Newidiadau mewn ymddygiad bob dydd - mae 37% o bobl yn siarad mwy â theulu a ffrindiau; mae 42% yn defnyddio mwy ar y cyfryngau cymdeithasol.*
- d. *Mae 67% o bobl yn ystyried bod lefelau'r cyfyngiadau cymdeithasol yn briodol*

Mae adroddiadau wythnosol ar ganfyddiadau'r arolwg ymgysylltu cenedlaethol ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.


3. **Sganiau'r Gorwel Rhyngwladol** - ymdriniwyd â hyn yn gynharach yn yr adroddiad hwn.
4. **Dangosfwrdd o ddangosyddion iechyd ehangach** - Mae'r Is-adran Gwybodaeth Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn archwilio ffynonellau data arferol ar faterion yn ymwneud ag iechyd a allai gael eu heffeithio gan y coronafeirws neu'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'i reoli. Bydd y rhain yn cael eu hymgorffori yn nangosfwrdd Coronafeirws Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda mesurau uniongyrchol eraill o heintio a phrofi.

10 Cynllunio ar gyfer y cam nesaf: Cynllun Ymateb i Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd


Gofynnodd y Prif Swyddog Meddygol i Iechyd Cyhoeddus Cymru baratoi cynllun ar gyfer cam nesaf yr ymateb i'r achos. Cyflwynwyd hwn fel cyngor iechyd cyhoeddus arbenigol i Lywodraeth Cymru ar 4 Mai 2020. Fe'i hysgrifennwyd i gefnogi dogfen Llywodraeth Cymru *Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: Fframwaith ar gyfer adferiad*. Mae'r Cynllun yn amlinellu tri phrif weithgaredd ar gyfer camau gweithredu iechyd cyhoeddus ar y cyd ar raddfa fawr, sef: Atal y clefyd rhag lledaenu drwy olrhain cysylltiadau a chanfod achosion; Cadw golwg ar y boblogaeth a; Samplu a Phrofi.

Atodiad: Crynodeb epidemiolegol o achosion a gadarnhawyd a marwolaethau yng Nghymru


Achosion wedi'u cadarnhau yn ôl grŵp oedran



Achosion wedi'u cadarnhau yn ôl dyddiad awdurdodi samplau




Pyramid Oedran a Rhyw marwolaethau COVID-19 a gadarnhawyd yng Nghymru



Dosbarthiad marwolaethau COVID-19 wedi'u cadarnhau yng Nghymru, fesul Bwrdd Iechyd preswyl

Health Board	Frequency	Percent
Aneurin Bevan UHB	242	23.7%
Betsi Cadwaladr UHB	150	14.7%
Cardiff and Vale UHB	191	18.7%
Cwm Taf Morgannwg UHB	210	20.5%
Hywel Dda UHB	45	4.4%
Out of Wales	3	0.3%
Powys THB	9	0.9%
Swansea Bay UHB	173	16.9%
Total	1023	-

Nifer y Marwolaethau a adroddwyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru (hyd at 1700h 4 Mai 2020)



Submission to Health, Social Care & Sport Committee, Senedd Cymru, Covid-19 Inquiry

Care Forum Wales

Care Forum Wales Care Forum Wales is a not-for-profit organisation with more than 450 members across Wales. We are the leading provider representative organisation in Wales. We were set up on March 1, 1993 to give health and social care providers a collective voice in the debate about how to provide the best outcomes for those who need social care. Our members are from both the private and third sectors and include care homes for all ages from older people to children and from nursing homes offering palliative care to specialist dementia or specialist mental health care homes. Our members also include domiciliary care providers.

Timeline

As awareness of Covid-19 grew we became increasingly concerned about the impact on the sector. We first raised the issue with national bodies at the National Commissioning Board on 10 February referencing the work we had been involved in with others in 2010/11 around pandemic preparedness with the then Chief Medical Officer. We were provided with some alerts that had been issued but none related to the care sector. On 13 February Public Health Wales issued Guidance for healthcare providers: health and social care workers who have travelled to China and other specified areas/countries. This was the first guidance to reference the sector. Following the issuing of guidance for the sector by Public Health England for Social and Community Care and Residential Settings on 25 February we wrote to the Chief Medical Officer asking for advice for Wales. We wrote again on 2 March asking:

- For early sight of any more detailed advice for a care home where a significant number of people have been in contact with someone who has tested positive;
- Ditto re. a care home resident who tests positive;
- Who would pay for the time of care staff who are advised to self-isolate? Would this be classed as sick leave and what evidence would be required or should we approach commissioners for support?
- Advice on the likelihood of key suppliers being impacted;
- The knock on effects of the reactions of others e.g. closure of schools meaning members of the workforce are unavailable;
- The impact of mass panic and reluctance to go to work;
- Will care staff be prioritised in the event of availability of a vaccine

We were invited to a phone conference with Welsh Government to discuss the issues relating to the sector on 6 March, which then became weekly.

PPE

The difficulties in gaining appropriate PPE for the sector are well documented as more was needed and usual supply routes dried up. The guidance was changed on Maundy Thursday (9 April) to recognise the community spread in the UK. While the situation has now eased somewhat in terms of both supply and supplementing by Welsh Government through local authorities, providers continue to be concerned about ongoing supply issues and an increase in costs for PPE.



Testing

As we know both care home residents and staff are at significant risk from Covid-19 and anecdotally most outbreaks in care homes seem to be traced back to asymptomatic residents or staff. We believe the safest policy would be to test all residents and staff regularly as well as domiciliary care staff who could become carriers. We have seen some progress in recent weeks with discharges from hospitals to care homes; all residents and staff in care homes where there is an outbreak and all admissions to care homes now tested. However, sometimes the implementation has lagged some way behind the policy announcements.

Finances and Viability of the Sector Going Forward

The sector has been hit by a number of additional costs in preparing for and dealing with Covid-19. Staffing is the vast majority of the costs in normal times and most care in Wales is at prices commissioned by local authorities and Health Boards based on paying staff the legal minimum wage or small increments above. This year's 6.2% increase on 1 April came before a number of local authorities and health boards had confirmed their fees for 2020/21. This added to the pressure on covering for staff who were ill, self-isolating or shielding as well as the increased need to isolate residents which increases staffing. Increased infection control measures have added to both staff and equipment costs. There have also been increased costs of IT infrastructure to allow contact between residents and those that would usually visit as well as home working for those who are not in the frontline; increases in costs and difficulty obtaining PPE, food etc. and insurance for those whose renewals are due. Finally, there is a growing issue of occupancy, where care homes are understandably reluctant to take admissions and potentially introduce Covid-19 to a care home and its existing residents. This has hit all homes who have had residents pass away but particularly affected those homes where there has been a Covid-19 outbreak. Staffing where residents are isolating also means the same staff complement can only care for a reduced number of residents. This means homes are reporting to us higher staff costs than income in a given week. This is obviously not sustainable.

The Welsh Government announced an initial £40m for social care to be distributed through local authorities on 14 April. While welcome, little of this money has actually been distributed as guidance was not issued until 27 April. Despite this guidance saying local authorities should "provide funding where appropriate, in a timely manner as and when they are aware of them and not delay dealing with these due to the timing of claims to the hardship fund" a number of local authorities are still considering the way forward, suggesting rigid timetables and incorporating significant bureaucracy into their processes. We would suggest the best solution would be to pay a flat fee that recognises all providers increased costs; additional costs on an evidenced basis to allow for the estimated variation of between 10-30% additional costs and an additional payment for occupancy that falls below 90% to ensure sustainability. Payments also need to cover health commissioned clients and self-funders.

The crisis comes on top of the chronic under resourcing of the care sector for a number of years and is blasting wide open the cracks in the system. As we move forward we need a better solution to create a robust and sustainable sector to care for our most vulnerable citizens.

Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

27 Ebrill 2020

Annwyl Dai,

COVID-19 a Chwaraeon

Bydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig ac effaith COVID-19 ar feysydd o fewn ein cylch gwaith. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn gobeithio holi'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch cymorth i sefydliadau sydd o fewn ei gylch gwaith.

O ystyried y berthynas rhwng chwaraeon a diwylliant, ac er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser a lleddfu pwysau ar eich Pwyllgor, a fydddech yn fodlon i'n Pwyllgor graffu ar waith y Dirprwy Weinidog ynghylch effaith COVID-19 ar faterion chwaraeon o ran y cysylltiad â diwylliant?

Os felly, allwch chi gysylltu â'm Clerc erbyn 4 Mai, i roi digon o amser inni baratoi ar gyfer y sesiwn?

Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi galwad am dystiolaeth i bob sefydliad o fewn ein cylch gwaith i asesu effaith tymor hwy y pandemig ac agwedd y Llywodraeth tuag at ddarparu cymorth. A fydddech yn fodlon inni gynnwys effaith COVID-19 ar chwaraeon yn ein galwad am dystiolaeth?

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau gan fy mod yn deall bod effaith economaidd digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru yn rhan o gylch gwaith ei Bwyllgor.

Yn gywir,



Helen Mary Jones

Cadeirydd y Pwyllgor

cc. Russell George AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau